# Lwfans Cynhaliaeth Addysg

## Ffurflen Gais am
# LCA
## yn 2009/10

cyllid myfyrwyr cymru










Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

**www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk/LCA**

SFW/EMA/F/V09-10

# Mae'n bryd gwneud cais am LCA ar gyfer blwyddyn academaidd 2009/10

## Mae ymgeisio mor hawdd ag 1, 2, 3!

## 1 Llenwi'r ffurflen

**Pam ddylwn i wneud cais?**
Gallwch ddefnyddio'r ffurflen hon er mwyn gwneud cais am LCA ar gyfer 2009/10 os ydych yn bwriadu astudio mewn ysgol neu goleg yng Nghymru o fis Medi 2009.

Hyd yn oed os nad ydych yn siŵr a fyddwch yn cychwyn ar gwrs, neu ble y byddwch yn astudio, mae modd i chi wneud cais o hyd.

**Pa adrannau y dylwn i eu llenwi?**
Rhaid i bob myfyriwr lenwi Adrannau A i H.

Gan ddibynnu ar eich atebion yn Adran E, efallai y bydd angen i chi ofyn i'ch rhiant(rhieni)/gwarcheidwad(gwarcheidwaid) lenwi Adrannau I a J.

Mae'r ffurflen hon yn ymddangos yn Saesneg ac yn Gymraeg, ond dim ond un fersiwn y bydd angen i chi ei lenwi a'i ddychwelyd.

**A oes modd i mi gael help wrth lenwi'r ffurflen?**
Oes. Rydym wedi darparu canllawiau er mwyn eich helpu i ateb unrhyw gwestiynau anodd. Dylech droi at y canllawiau bob tro y byddwch yn gweld yr eicon hwn. n

Bydd angen i chi ddarparu tystiolaeth er mwyn cynorthwyo'ch cais.
Bydd yr eicon hwn yn amlygu unrhyw dystiolaeth y bydd angen ei darparu. t

Mae'r canllawiau yn cynnwys gwybodaeth am y dystiolaeth y bydd angen ei darparu.

Os bydd angen unrhyw gymorth pellach arnoch er mwyn ateb y cwestiynau, ffoniwch ni ar 0845 602 8845.

## 2 Dychwelyd y ffurflen

**Ar ôl ei llenwi, pryd ddylwn i anfon fy ffurflen atoch?**
**Ar unwaith!** Er mwyn sicrhau bod eich hawl i gael LCA yn cael ei gytuno a'i fod mewn grym ymhell cyn eich tymor cyntaf yn 2009/10, dylech ddychwelyd eich ffurflen atom cyn Mehefin 2009. Ni fydd hi fyth yn rhy gynnar i ymgeisio, ond fe allai fod yn rhy hwyr!

**Beth fydd yn digwydd os byddaf yn anfon fy ffurflen yn hwyr?**
Os na fydd eich ffurflen yn cyrraedd cyn pen 8 wythnos o'r dyddiad pan wnaethoch chi gychwyn ar eich cwrs, efallai na fydd modd i chi gael taliadau LCA ôl-ddyddiedig. Fan bellaf, rhaid i ni gael ffurflenni cais erbyn 31 Awst 2010.

**Beth am y broses postio?**
Argymhellwn eich bod yn sicrhau prawf postio ar gyfer y ffurflen hon trwy ddefnyddio gwasanaeth post cofnodedig neu sicrhau tystysgrif bostio gan swyddfa'r post, er enghraifft. Mae hyn oherwydd y gallai unrhyw oedi sy'n codi cyn i'ch ffurflen gais gyrraedd, arwain at oedi wrth ddechrau talu'ch taliadau.

**Sut fyddaf yn gwybod eich bod wedi cael fy ffurflen i?**
Byddwn yn cadarnhau ein bod wedi cael eich cais trwy anfon Llythyr Cydnabyddiaeth atoch. Os na fyddwch yn cael y llythyr hwn cyn pen pythefnos o'r adeg pan wnaethoch anfon eich ffurflen, dylech ein ffonio.

## 3 Derbyn eich llythyr dyfarnu

**Beth fydd fy llythyr dyfarnu yn ei ddweud?**
Bydd eich llythyr dyfarnu yn nodi swm eich lwfans LCA wythnosol ar gyfer blwyddyn academaidd 2009/10 a phryd y gallwch ddisgwyl cael eich taliadau pythefnosol.

**A fydd angen i mi wneud unrhyw beth gyda'r llythyr dyfarnu?**
Na fydd. Ond efallai y bydd eich ysgol neu goleg yn gofyn am weld eich llythyr dyfarnu pan fyddwch yn llofnodi eich Cytundeb Dysgu ar gyfer 2009/10.

Am wybodaeth bellach am Gytundebau Dysgu, trowch at y canllawiau.

CYFEIRNOD MEWNOL: (At ddefnydd mewnol yn unig)

## ADRAN A - EICH MANYLION PERSONOL

Os ydych yn fyfyriwr sy'n cael LCA yn barod, nodwch eich Cyfeirnod Cwsmer:

**C1.** Teitl — Mr ☐ Mrs ☐ Miss ☐ Arall

Enw(au) cyntaf

Cyfenw/Enw teuluol

Rhyw — Gwryw ☐ Benyw ☐

Dyddiad geni t — DYDD MIS BLWYDDYN

Ym mha dref neu ddinas y cawsoch eich geni?

**Manylion Diogelwch**

**C2a.** A fyddech gystal â nodi 'Ateb Cyfrinachol'.

**Mae'n bwysig bod eich Ateb Cyfrinachol yn un hawdd i'w gofio oherwydd byddwn yn gofyn i chi gadarnhau hwn bob tro y byddwch yn ein ffonio.**

**C2b.** A fyddech gystal â nodi cwestiwn 'awgrymiadol' er mwyn eich atgoffa o'ch Ateb Cyfrinachol.

Er enghraifft, os byddwch yn dewis 'Superman' fel eich Ateb Cyfrinachol, gallech nodi 'Beth yw enw fy hoff arwr i?' fel eich cwestiwn 'awgrymiadol'.

**Os byddwch yn anghofio eich Ateb Cyfrinachol, byddwn yn gofyn y cwestiwn 'awgrymiadol' hwn i chi er mwyn eich helpu i'w gofio.**

**C3.** Cyfeiriad y cartref t

Côd post

Rhif ffôn y cartref

Rhif ffôn symudol

Cyfeiriad e-bost

cyllid myfyrwyr cymru

## ADRAN B - MANYLION EICH YSGOL NEU GOLEG

Dylech nodi manylion yr ysgol neu'r coleg lle'r ydych yn bwriadu astudio o 1 Medi 2009. Os ydych yn bwriadu astudio mewn mwy nag un ysgol neu goleg, dylech nodi enw'r man lle'r ydych yn bwriadu treulio'r rhan fwyaf o'ch amser.

Os nad ydych yn siŵr ble y byddwch yn astudio o fis Medi 2009, dylech nodi manylion yr ysgol neu'r coleg yr ydych yn ei mynychu/fynychu ar hyn o bryd. Cyn gynted ag y byddwch yn gwybod ble y byddwch yn astudio, dylech ein ffonio ni er mwyn i ni allu diweddaru'ch cais.

| | |
|---|---|
| Enw'r ysgol neu'r coleg | |
| Campws | |
| Stryd | |
| Tref/Dinas | |
| Sir | |
| Côd post | |

## ADRAN C - MANYLION AM EICH CENEDLIGRWYDD n

**C1.** A ydych yn **wladolyn y DU**? Ydw ☐ t Nac ydw ☐ os 'Ydych' **ewch i Adran D**

**C2.** Nodwch pa gategori cenedligrwydd sy'n berthnasol i chi trwy dicio **un** bocs isod:

- **a.** A ydych yn wladolyn yr UE? ☐ t
- **b.** A ydych yn wladolyn yr AEE neu'r Swistir sy'n gweithio, sydd wedi bod yn gweithio neu sy'n chwilio am waith yn y DU? ☐ t
- **c.** A ydych yn ŵr, yn wraig, yn bartner sifil, yn rhiant, yn llys-riant, yn blentyn, yn llysblentyn neu'n blentyn partner sifil gwladolyn yr AEE sy'n gweithio, sydd wedi bod yn gweithio neu sy'n chwilio am waith yn y DU? ☐ t
- **d.** A ydych yn ŵr, yn wraig neu'n bartner sifil gwladolyn y Swistir sy'n gweithio, sydd wedi bod yn gweithio neu sy'n chwilio am waith yn y DU? ☐ t
- **e.** A ydych yn blentyn, yn llysblentyn neu'n blentyn partner sifil gwladolyn y Swistir? ☐ t
- **f.** A oes unrhyw un o'ch rhieni yn wladolyn o Dwrci sy'n byw yn y DU a'r Ynysoedd ar hyn o bryd ac sy'n gweithio yn y DU neu sydd wedi gweithio yn y DU? ☐ t
- **g.** A ydych wedi sicrhau 'Statws Preswylydd Sefydlog' neu a roddwyd 'Caniatâd Mynediad am amser Amhenodol' neu 'Ganiatâd i Aros am amser Amhenodol' i chi yn y DU? ☐ t
- **h.** A yw llywodraeth y DU wedi rhoi 'Statws Ffoadur' i chi? ☐ t
- **i.** A ydych yn ŵr, yn wraig, yn bartner sifil, yn blentyn, yn llysblentyn neu'n blentyn partner sifil unigolyn y mae llywodraeth y DU wedi dyfarnu 'Statws Ffoadur' iddynt? ☐ t
- **j.** A roddwyd 'Caniatâd Mynediad neu Aros' i chi yn y DU? ☐ t
- **k.** A ydych yn ŵr, yn wraig, yn bartner sifil, yn blentyn, yn llysblentyn neu'n blentyn partner sifil unigolyn y rhoddwyd 'Caniatâd Mynediad neu Aros' iddynt yn y DU? ☐ t
- **l.** Dim un o'r uchod. ☐ n

## ADRAN D - EICH MANYLION PRESWYLIO



**C1a.** A ydych wedi bod yn preswylio fel arfer yn y DU am dair blynedd cyn 1 Medi 2009? **Ydw** ☐ **Nac ydw** ☐ os 'Ydych' **ewch i Adran E**

**b.** A ydych wedi bod yn preswylio fel arfer yn yr UE/AEE neu'r Swistir am dair blynedd cyn 1 Medi 2009? **Ydw** ☐ **Nac ydw** ☐ os 'Ydych' **ewch i Adran E**

**c.** Os ydych wedi ticio 'Nac ydw' ar gyfer C1a a b, nodwch eich manylion preswylio ar gyfer y tair blynedd cyn 1 Medi 2009.

| Cyfeiriad llawn | | Pam oeddech chi yno? |
|---|---|---|
| | O<br>DYDD ☐☐ MIS ☐☐ BLWYDDYN ☐☐☐☐<br>Hyd at<br>DYDD ☐☐ MIS ☐☐ BLWYDDYN ☐☐☐☐ | |
| | O<br>DYDD ☐☐ MIS ☐☐ BLWYDDYN ☐☐☐☐<br>Hyd at<br>DYDD ☐☐ MIS ☐☐ BLWYDDYN ☐☐☐☐ | |
| | O<br>DYDD ☐☐ MIS ☐☐ BLWYDDYN ☐☐☐☐<br>Hyd at<br>DYDD ☐☐ MIS ☐☐ BLWYDDYN ☐☐☐☐ | |

## ADRAN E - MANYLION AM EICH ANNIBYNIAETH

Mae'r adran hon yn helpu i benderfynu a ydych yn fyfyriwr dibynnol neu annibynnol, ac felly, incwm pwy y bydd angen ei ystyried wrth asesu'ch hawl i gael cymorth ariannol.

Os byddwch yn ateb 'Ydw' i **UNRHYW UN** o'r cwestiynau isod, efallai y byddwch yn cael eich ystyried yn annibynnol.
Os byddwch yn ateb 'Nac ydw' i'r **HOLL** gwestiynau isod, fe'ch ystyrir yn ddibynnol.

**C1.** A ydych wedi ymbellhau o'ch rhiant(rhieni)/gwarcheidwad(gwarcheidwaid)? n — **Ydw** ☐ **Nac ydw** ☐ **os 'Ydych' ewch i C3**

**C2.** A ydych yn byw dan ofal Awdurdod Lleol? (er enghraifft, gyda rhieni maeth) — **Ydw** ☐ t **Nac ydw** ☐

**C3.** A ydych yn cael Cymhorthdal Incwm neu Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar incwm yn eich enw chi? — **Ydw** ☐ t **Nac ydw** ☐

**C4.** A ydych yn gyfrifol am eich plentyn eich hun? — **Ydw** ☐ t **Nac ydw** ☐

**C5.** A ydych yng ngofal Sefydliad i Droseddwyr Ifanc ar hyn o bryd? — **Ydw** ☐ t **Nac ydw** ☐

## ADRAN F - MANYLION EICH CYFRIF BANC NEU GYMDEITHAS ADEILADU

- Rhaid i chi ddarparu manylion cyfrif sy'n fodlon derbyn credyd uniongyrchol.
- Nodwch enw llawn deiliad y cyfrif, yn unol â'r hyn a nodir ar eich datganiad neu'ch cerdyn banc neu gymdeithas adeiladu.
- Gallwch weld eich côd didoli a rhif eich cyfrif ar eich datganiadau banc neu gymdeithas adeiladu.
- Gall eich rhif rhôl cymdeithas adeiladu gynnwys hyd at 18 o lythrennau a rhifau, er enghraifft, JOHNSO12345678. Bydd rhai cymdeithasau adeiladu yn gofyn i chi nodi'r rhif hwn er mwyn caniatáu iddynt wneud taliadau awtomatig i'ch cyfrif. Os nad ydych yn gwybod eich rhif rhôl, gofynnwch i'ch cymdeithas adeiladu am gyngor.
- Os na fyddwch yn llenwi'r adran hon yn gywir, efallai y bydd eich dyfarniad LCA yn cael ei oedi.

**Os ydych yn wynebu unrhyw amgylchiadau arbennig sy'n eich atal rhag agor cyfrif banc neu gymdeithas adeiladu yn eich enw chi, ticiwch yma.** ☐

Enw Deiliad y Cyfrif ______

Enw'r Banc neu'r Gymdeithas Adeiladu ______

Côd Didoli ☐☐ - ☐☐ - ☐☐

Rhif y Cyfrif ☐☐☐☐☐☐☐☐

Rhif Rhôl Cymdeithas Adeiladu (os yw'n berthnasol) ☐☐☐☐☐☐☐☐☐☐☐☐☐☐

## ADRAN G - CANIATÂD I RANNU

Bydd y data y byddwch yn ei ddarparu yn y ffurflen hon yn cael ei ddarparu i Lywodraeth Cynulliad Cymru, y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr (SLC) neu unrhyw sefydliadau eraill a ddefnyddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru at ddibenion gweinyddu LCA er mwyn eu galluogi i'ch hysbysu chi o unrhyw gynhyrchion ariannu myfyrwyr eraill a allai fod ar gael, ac at ddibenion marchnata fel cynnal ymchwil y farchnad.

Os **nad ydych** yn rhoi eich caniatâd i'ch data gael ei ddefnyddio fel y disgrifir uchod, ticiwch yma. ☐

**Gwybodaeth bwysig os ydych yn byw gyda'ch rhiant(rhieni)/gwarcheidwad(gwarcheidwaid) neu bartner:**

Mae'n bwysig ein bod yn gwybod a fyddwch yn gadael i ni drafod eich cais a'ch dyfarniad gyda'ch rhiant(rhieni)/gwarcheidwad(gwarcheidwaid) neu'ch partner. Ni allwn roi gwybodaeth am eich cais neu'ch dyfarniad i unrhyw un heb i chi gytuno. n

- Rydw i'n rhoi fy nghaniatâd i Dîm Gwasanaethau Cwsmeriaid LCA Cymru i ddarparu manylion am gynnydd fy nghais a'm dyfarniad i'r unigolyn a enwyd fel Unigolyn 1 yn Adran I y ffurflen gais hon. Ydw ☐ Nac ydw ☐

a, phan fo hynny'n briodol

- Rydw i'n rhoi fy nghaniatâd i Dîm Gwasanaethau Cwsmeriaid LCA Cymru i ddarparu manylion am gynnydd fy nghais a'm dyfarniad i'r unigolyn a enwyd fel Unigolyn 2 yn Adran I y ffurflen gais hon. Ydw ☐ Nac ydw ☐

## ADRAN H - DATGANIAD MYFYRIWR

**A fyddech gystal â darllen y datganiad canlynol. Ni fyddwn yn gallu prosesu'ch cais am LCA oni bai eich bod yn llofnodi ac yn dyddio'r datganiad hwn.**

Cyn llofnodi a dychwelyd y ffurflen ar ôl ei llenwi, dylech ddarllen y Datganiad Diogelu Data yn y canllawiau LCA a anfonwyd gyda'r ffurflen hon. Mae'r datganiad hwn yn nodi pwy fydd yn defnyddio'r wybodaeth a nodir yn y ffurflen gais hon a'r hyn y byddant yn defnyddio'r wybodaeth ar ei gyfer.

- Rydw i'n cadarnhau, hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred, bod y wybodaeth a nodais yn y ffurflen hon yn gywir ac yn gyflawn.
- Rydw i'n cadarnhau fy mod wedi cyflwyno dogfennaeth ategol yn unol â'r canllawiau.
- Deallaf y bydd unrhyw ymgais i sicrhau LCA mewn ffordd anonest yn cael ei thrin fel twyll ac fe allai arwain at ddwyn achos troseddol a/neu sifil yn fy erbyn.

Enw llawn y myfyriwr (mewn PRIFLYTHRENNAU): ____________________

Llofnod y myfyriwr: ✕ ____________________ Dyddiad: DYDD ☐☐ MIS ☐☐ BLWYDDYN ☐☐☐☐

**Adrannau y bydd angen i chi eu llenwi nawr:**

| **Myfyriwr Dibynnol** | **Myfyriwr Annibynnol** | **Myfyriwr Annibynnol** |
|---|---|---|
| Os ydych yn fyfyriwr dibynnol, dylech roi'r ffurflen gais hon i'ch rhiant(rhieni)/ gwarcheidwad(gwarcheidwaid) er mwyn iddynt lenwi Adrannau I a J. | Os ydych wedi ateb 'Ydw' yn C1 a 'Nac ydw' yn C3 yn Adran E, rhaid i chi a'ch partner (pan fo hynny'n berthnasol), lenwi Adrannau I a J. | Ar gyfer yr holl fyfyrwyr annibynnol eraill, rydych wedi llenwi'r ffurflen yn barod. Trowch at dudalen 11. |

# ADRAN I - MANYLION AM SEFYLLFA ARIANNOL EICH CARTREF n

Dylai'r canlynol lenwi'r adran hon:
- rhiant(rhieni)/gwarcheidwad(gwarcheidwad) y myfyriwr os yw'r myfyriwr yn ddibynnol.
- y myfyriwr a'u gwraig, eu gŵr, eu partner sifil neu eu partner (pan fo hynny'n berthnasol) os yw'r myfyriwr:
  - wedi ymbellhau o'u rhiant(rhieni)/gwarcheidwad(gwarcheidwaid) **a**
  - HEB fod yn byw dan ofal Awdurdod Lleol **a**
  - HEB fod yn cael Cymhorthdal Incwm neu Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar incwm.

Rhaid i chi ateb pob cwestiwn gan nodi cyfanswm yr incwm a gafwyd. Os na wnaethoch chi ennill/derbyn unrhyw rai o'r mathau o incwm, rhaid i chi nodi £0.00 ar y ffurflen gais.
Mae'n hanfodol eich bod yn darparu manylion cywir a chyflawn am eich incwm. Os na fyddwch yn gwneud hynny, gallai hyn atal y myfyriwr rhag cael swm llawn LCA y mae ganddynt yr hawl i'w gael.

| | Unigolyn 1 n | Unigolyn 2 |
|---|---|---|
| **C1.** Perthynas gyda'r ymgeisydd | | |
| Enw cyntaf | | |
| Cyfenw/Enw teuluol | | |

## Incwm gan Fudd-daliadau

**C2.** Os yw Unigolyn 1 neu Unigolyn 2 yn cael Cymhorthdal Incwm neu Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar incwm, ticiwch yma: ☐ t

os ticiwyd, ewch i Adran J yn syth

**C3.** A yw'ch cartref wedi cael Hysbysiad Dyfarniad Credyd Treth TC602(E) ar gyfer blwyddyn ariannol 2008-09? Ydy ☐ t Nac ydy ☐

Os 'Ydy', nodwch gyfanswm incwm blynyddol eich cartref fel y mae'n ymddangos ar eich Hysbysiad Dyfarniad Credyd Treth TC602(E) £

## Incwm gan Gyflogaeth

**C4.** A fyddech gystal â darparu gwybodaeth ar gyfer blwyddyn ariannol 2008-09:

| | Unigolyn 1 | Unigolyn 2 |
|---|---|---|
| Cyflogau t | £ | £ |
| Incwm Hunangyflogedig t | £ | £ |
| Budd-daliadau Nawdd Cymdeithasol Trethadwy t | £ | £ |
| Incwm Arall t | | |
| | £ | £ |
| | £ | £ |
| | £ | £ |
| **C5a.** Beth yw cyfanswm eich incwm blynyddol? | £ | £ |

**b.** Beth yw cyfanswm incwm blynyddol eich cartref? £

# ADRAN J - DATGANIAD AR GYFER UNIGOLYN(UNIGOLION) A ENWIR YN ADRAN I

**A fyddech gystal â darllen y datganiad canlynol. Ni fyddwn yn gallu prosesu'r cais hwn am LCA oni bai eich bod yn llofnodi ac yn dyddio'r datganiad hwn.**

Cyn llofnodi a dychwelyd y ffurflen ar ôl ei llenwi, dylech ddarllen y Datganiad Diogelu Data yn y canllawiau LCA a anfonwyd gyda'r ffurflen hon. Mae'r datganiad hwn yn nodi pwy fydd yn defnyddio'r wybodaeth a nodir yn y ffurflen gais hon a'r hyn y byddant yn defnyddio'r wybodaeth ar ei gyfer.

- Rydw i'n cadarnhau, hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred, bod y wybodaeth a nodais yn y ffurflen hon yn gywir ac yn gyflawn.
- Deallaf y bydd unrhyw ymgais i sicrhau LCA mewn ffordd anonest yn cael ei thrin fel twyll ac fe allai arwain at ddwyn achos troseddol a/neu sifil yn fy erbyn.

**Unigolyn 1**

Eich enw llawn (mewn LLYTHRENNAU BRAS):

Eich llofnod:

X

Dyddiad: DYDD MIS BLWYDDYN

**Unigolyn 2**

Eich enw llawn (mewn LLYTHRENNAU BRAS):

Eich llofnod:

X

Dyddiad: DYDD MIS BLWYDDYN

## MONITRO CYFLE CYFARTAL
## HOLIADUR GWIRFODDOL

Mae'r cwestiynau canlynol yn gwestiynau gwirfoddol – nid oes yn rhaid i chi eu hateb. Ni fydd eich penderfyniad i'w hateb neu beidio eu hateb yn effeithio ar eich cais am LCA. Os byddwch yn eu hateb, efallai y defnyddir y wybodaeth i helpu Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddatblygu ei pholisïau yn y dyfodol.

**C1.** A ydych yn ystyried bod gennych anabledd? ☐ Ydw ☐ Nac ydw

**C2.** Beth ydych chi'n ystyried yw eich cenedligrwydd?
(Dewiswch gymaint neu gyn lleied ag sy'n berthnasol).

- ☐ Cymreig
- ☐ Gwyddelig
- ☐ Seisnig
- ☐ Prydeinig
- ☐ Albanaidd
- ☐ Arall

**C3.** Dewiswch **UN** adran o A i E, yna ticiwch y bocs priodol i nodi'ch grŵp ethnig.

**A** Gwyn
- ☐ Prydeinig
- ☐ Unrhyw gefndir gwyn arall

**B** Cymysg
- ☐ Gwyn a Du Caribïaidd
- ☐ Gwyn a Du Affricanaidd
- ☐ Gwyn ac Asiaidd
- ☐ Unrhyw gefndir cymysg arall

**C** Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig
- ☐ Indiaidd
- ☐ Pacistanaidd
- ☐ Bangladeshaidd
- ☐ Unrhyw gefndir Asiaidd arall

**D** Du neu Ddu Prydeinig
- ☐ Caribïaidd
- ☐ Affricanaidd
- ☐ Unrhyw gefndir du arall

**E** Tsieineaidd neu grŵp ethnig arall
- ☐ Tsieineaidd
- ☐ Unrhyw gefndir arall

**A FYDDECH GYSTAL Â DYCHWELYD YR HOLIADUR HWN, WEDI'I LENWI, GYDA'CH FFURFLEN GAIS**

## Rhestr Wirio Myfyriwr

**A ydych chi:**

- ☐ Wedi ateb a gwirio'r holl gwestiynau yn Adrannau A i H?
- ☐ Wedi darparu'r dystiolaeth ddogfennol wreiddiol y gofynnwyd amdani yn y canllawiau? t
- ☐ Wedi llofnodi a dyddio'r Datganiad Myfyriwr?
- ☐ Wedi nodi a ydych yn rhoi caniatâd i Dîm Gwasanaethau Cwsmeriaid LCA Cymru i ddarparu manylion ynghylch cynnydd eich cais a'ch dyfarniad i Unigolyn 1 a/neu Unigolyn 2?

## Rhestr Wirio ar gyfer Unigolyn 1 a 2:

**A ydych chi:**

- ☐ Wedi llenwi a gwirio Adrannau I a J?
- ☐ Wedi nodi'r cyfanswm cywir ar gyfer incwm y cartref?
- ☐ Wedi cynnwys Hysbysiad Dyfarniad Credyd Treth TC602(E) eich cartref (pan fo hynny'n berthnasol)? t
- ☐ Wedi cynnwys tystiolaeth sy'n cefnogi'r datganiad ynghylch incwm y cartref, os nad oes gennych Hysbysiad Dyfarniad Credyd Treth TC602(E)? t
- ☐ Wedi llofnodi a dyddio'r Datganiad(au)?

## Gair i'ch atgoffa

- Gallai unrhyw wybodaeth neu ddogfennaeth sydd ar goll olygu y bydd eich taliad LCA yn cyrraedd yn hwyr. Fodd bynnag, ni ddylech oedi cyn anfon eich ffurflen gais os ydych yn cael anhawster wrth ddarparu'r dystiolaeth hon.
- **Dylech ddychwelyd eich ffurflen gais atom cyn gynted ag y bo modd. Os na fydd eich ffurflen yn cyrraedd cyn pen 8 wythnos o'r dyddiad pan wnaethoch chi gychwyn ar eich cwrs, efallai na fydd modd i chi gael taliadau LCA ôl-ddyddiedig.** Fan bellaf, rhaid cyflwyno ffurflenni cais erbyn 31 Awst 2010. Argymhellwn eich bod yn sicrhau prawf postio ar gyfer y ffurflen hon trwy ddefnyddio gwasanaeth post cofnodedig neu sicrhau tystysgrif bostio gan swyddfa'r post. Mae hyn oherwydd y gallai unrhyw oedi sy'n codi cyn i'ch ffurflen gais gyrraedd, arwain at oedi wrth ddechrau talu'ch taliadau.

Dylech anfon eich **ffurflen wedi'i llenwi** a **thystiolaeth ategol wreiddiol**, gan ddefnyddio'r amlen a ddarparwyd, at:

**Gwasanaethau Cwsmeriaid LCA Cymru**
**ADM 3888**
**Caerdydd**
**CF11 0ZY**

Os na fyddwch wedi cael unrhyw gydnabyddiaeth wrthym cyn pen pythefnos o anfon eich ffurflen gais, neu os bydd gennych unrhyw ymholiadau eraill, dylech gysylltu â ni ar 0845 602 8845.

Os oes gennych unrhyw nam ar eich clyw ac os ydych yn dymuno siarad gyda chynghorydd gan ddefnyddio dyfais minicom, cysylltwch â ni ar 0845 603 1693.

Lwfans Cynhaliaeth Addysg

# Canllawiau ar gyfer

# LCA

yn 2009/10

cyllid myfyrwyr cymru

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk/LCA

SFW/EMA/N/V09-10

# BETH SYDD RAID I MI EI WNEUD I GAEL LCA?

Cwblhewch eich ffurflen gais a'i hanfon yn ôl yn yr amlen a ddarperir.

Byddwn yn cadarnhau ein bod wedi cael eich cais trwy anfon Llythyr Cydnabyddiaeth atoch.

ASSESSED

Byddwn yn asesu eich cais.

Os bydd angen rhagor o wybodaeth neu dystiolaeth arnom i gwblhau ein hasesiad, byddwn yn cysylltu â chi.

Byddwn yn anfon Llythyr Dyfarnu atoch.

Bydd angen i chi gytuno a llofnodi Cytundeb Dysgu yn eich ysgol neu goleg.

I dderbyn eich LCA, rhaid i chi fod yn mynychu ysgol neu goleg.

Bydd eich ysgol neu goleg yn cadarnhau eich presenoldeb.

Os byddwch yn mynychu ysgol neu goleg, byddwch yn derbyn taliad bob pythefnos i mewn i'ch cyfrif banc neu gymdeithas adeiladu.

Os byddwch yn bodloni amcanion eich Cytundeb Dysgu, byddwch yn derbyn taliadau bonws.

## BETH YW LCA?

Mae'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg (LCA) yn daliad o £10, £20 neu £30 yr wythnos a delir i fyfyrwyr cymwys bob pythefnos ac sy'n gallu helpu i dalu costau addysg bellach. Yn ogystal, gall myfyrwyr sy'n cael eu derbyn ar gynllun LCA gael taliadau bonws o £100 os byddant yn bodloni amcanion mynychu a pherfformio eu hysgol neu goleg.

## SUT MAE MODD I MI EI GAEL?

Efallai y byddwch yn gymwys i gael LCA os ydych:

- Yn parhau mewn ysgol neu goleg neu'n cychwyn mewn ysgol neu goleg yng Nghymru sy'n cymryd rhan yn y cynllun, yn ystod blwyddyn academaidd 2009/10 (1 Medi 2009 - 31 Awst 2010);
- Os ydych rhwng 16 ac 18* oed ar 31 Awst 2009;
- Os ydych yn mynychu cwrs amser llawn cymwys mewn ysgol neu isafswm o 12 awr dan arweiniad mewn coleg. Mae cyrsiau cymwys yn cynnwys cyrsiau academaidd a galwedigaethol hyd at, a chan gynnwys, Lefel 3 (e.e. TGAU, Safon Uwch, BTEC, CGC a Sgiliau Sylfaenol) ac mae'n rhaid iddynt bara 10 wythnos o leiaf;
- Os ydych yn bodloni'r meini prawf ynghylch manylion preswylio a chenedligrwydd a bennwyd ar gyfer cynllun LCA Cymru;
- Os na fyddwch yn cael GDC AB ar gyfer blwyddyn academaidd 2009/10; ac
- Os ydych yn byw mewn cartref lle y mae'r incwm blynyddol yn £32,400 neu'n is.

**SYLWER:** NID yw cyrsiau Addysg Uwch a rhaglenni dysgu seiliedig ar waith a ariannir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn gymwys er mwyn hawlio arian LCA ar eu cyfer.

Os byddwch yn bodloni'r holl feini prawf cymhwyso uchod, dylech lenwi ffurflen gais LCA Cymru a'i dychwelyd atom yn yr amlen a ddarparwyd. Os byddwch yn colli'ch ffurflen gais, gallwch lawrlwytho copi arall trwy droi at www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk/LCA, gofyn i'ch ysgol neu goleg am gopi arall, neu ofyn am gopi arall trwy ffonio ni ar 0845 602 8845.

Byddwn yn cadarnhau ein bod wedi cael eich cais trwy anfon Llythyr Cydnabyddiaeth atoch. Os na fyddwch yn cael y llythyr hwn cyn pen pythefnos o anfon eich ffurflen, dylech ein ffonio ni.

## FAINT O ARIAN Y BYDD MODD I MI EI GAEL?

Gan ddibynnu ar eich oedran, efallai y byddwch yn gymwys i gael LCA am uchafswm o dair blynedd, er y bydd yn rhaid i chi wneud cais amdano bob blwyddyn.

Yr uchafswm wythnosol a bennwyd ar gyfer LCA yw £30, a delir bob pythefnos. Er mwyn penderfynu faint yr ydych yn gymwys i'w gael, bydd angen i ni ystyried incwm blynyddol eich cartref. Mae'r tabl isod yn dangos faint y gallech fod yn gymwys i'w gael:

| Incwm Blynyddol y Cartref | Hawl LCA Wythnosol | Taliad LCA bob Pythefnos |
|---|---|---|
| Hyd at £21,885 | £30 | £60 |
| £21,886 - £26,840 | £20 | £40 |
| £26,841 - £32,400 | £10 | £20 |
| £32,401 a throsodd | £0 | £0 |

Yn ogystal â lwfans wythnosol, efallai y byddwch yn gallu cael taliadau bonws o £100 hefyd.

Cyn gynted ag y byddwn yn cwblhau ein hasesiad, byddwn yn cadarnhau a ydych yn gymwys a faint y bydd gennych yr hawl i'w gael. Os bydd angen unrhyw wybodaeth neu dystiolaeth bellach arnom er mwyn cwblhau ein hasesiad, byddwn yn cysylltu â chi.

* gallai'r hawl gael ei ymestyn i'r rhai sy'n 19 oed os nad ydynt wedi cael gwerth 3 blynedd o daliadau LCA yn barod.

## PRYD FYDD MODD I MI EI GAEL?

Os byddwch yn gymwys i gael LCA, rhaid i chi lofnodi dwy ran y Cytundeb Dysgu gyda chynrychiolydd o'ch ysgol neu goleg ar ôl i chi gychwyn ar eich cwrs. Mae'r Cytundeb Dysgu hwn yn cynnwys yr holl reolau ynghylch mynychu a pherfformio a bennir gan eich ysgol neu goleg, y bydd yn rhaid i chi eu bodloni er mwyn cael eich lwfans wythnosol yn ogystal ag unrhyw daliadau bonws.

Fel arfer, telir taliadau bonws ym mis Ionawr a mis Gorffennaf bob blwyddyn i'r rhai sy'n bodloni amcanion eu Cytundeb Dysgu. Gellir talu taliad bonws pellach i'r rhai sy'n dychwelyd am ail neu drydedd flwyddyn.

Sylwer bod unrhyw daliadau yr ydych yn gymwys i'w cael, ar gyfer blwyddyn academaidd 2009/10 yn unig.

! **Dylech ddychwelyd eich ffurflen gais atom cyn gynted ag y bo modd. Os na fyddwn yn ei chael cyn pen 8 wythnos o'r adeg y byddwch yn cychwyn ar eich cwrs,** efallai na fydd modd i chi hawlio taliadau LCA ôl-ddyddiedig. Rhaid dychwelyd ffurflenni cais erbyn 31 Awst 2010 fan bellaf.

## PWY Y GALLAF GYSYLLTU Â NHW OS BYDD GENNYF GWESTIYNAU PELLACH?

Os bydd gennych unrhyw ymholiadau, dylech siarad gyda'ch ysgol neu goleg. Os na fydd eich ysgol neu goleg yn gallu ateb eich ymholiad, gallwch gael rhagor o wybodaeth am LCA:

- trwy droi at www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk/LCA; neu
- trwy anfon e-bost at LCACymru@slc.co.uk; neu
- drwy ffonio Tîm Gwasanaethau Cwsmeriaid LCA Cymru ar 0845 602 8845.

Os oes gennych unrhyw nam ar eich clyw ac os ydych yn dymuno siarad gyda chynghorydd gan ddefnyddio dyfais minicom, ffoniwch ni ar 0845 603 1693.

## SUT MAE MODD I MI WNEUD CWYN?

Fel arfer, mae modd datrys unrhyw broblemau yn gyflym ac yn hawdd trwy ffonio'r adran yr ydych wedi bod yn delio gyda hi, esbonio'ch problem a gofyn iddynt ei datrys. Os na fydd hyn yn datrys y broblem yn foddhaol, neu os ydych o'r farn y gallai'r cam hwn fod yn un amhriodol, gallwch wneud cwyn trwy gyfrwng un o'r ffyrdd canlynol:

- Trwy ysgrifennu at: Customer Assistance<br>Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr Cyfyngedig (SLC)<br>100 Bothwell Street<br>Glasgow<br>G2 7JD
- Trwy ffonio'r adran y buoch yn delio gyda hi ddiwethaf a gofyn iddynt gofnodi cwyn dros y ffôn
- Trwy anfon e-bost at customer_complaints@slc.co.uk

Dylech ddyfynnu eich Cyfeirnod Cwsmer (os oes un gennych) mewn unrhyw ohebiaeth.

Os ydych yn teimlo'ch bod wedi dioddef o ganlyniad i gamweinyddu neu oherwydd bod y gwasanaeth wedi methu o ran eich cais neu'ch asesiad chi, mae gennych yr hawl i wneud cwyn yn uniongyrchol i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.



SFW/EMA/N/V09-10

## NODIADAU ER MWYN LLENWI FFURFLEN GAIS 2009/10

Dylech ddefnyddio'r nodiadau hyn wrth i chi lenwi'r ffurflen gais. Rhannwyd y nodiadau i adrannau yn yr un modd â'r cwestiynau, er mwyn ei gwneud yn haws i chi ddod o hyd i'r wybodaeth gywir. Mae'r nodiadau yn disgrifio'r hyn y bydd angen i chi ei ddweud wrthym ac maent yn cynnwys manylion unrhyw dystiolaeth ddogfennol y bydd yn rhaid i chi neu'ch rhiant(rhieni)/gwarcheidwad (gwarcheidwaid) neu'ch partner ei hanfon gyda'r ffurflen hefyd.

t **PWYSIG:** Yn y nodiadau hyn, amlinellir unrhyw dystiolaeth y bydd angen i chi ei darparu, a defnyddir yr eicon hwn i ddynodi tystiolaeth o'r fath.

**SYLWER:** Nid ydym yn derbyn tystiolaeth ddogfennol wedi'i llun-gopïo. Os byddwch yn dychwelyd llun-gopïau, bydd hyn yn arwain at oedi wrth brosesu'ch cais. Byddwn yn dychwelyd dogfennau gwreiddiol atoch cyn gynted ag y bo modd.

---

## ADRAN A EICH MANYLION PERSONOL

**C1** t Rhaid i chi ddarparu prawf o'ch oedran a'ch manylion personol trwy anfon eich tystysgrif geni neu'ch tystysgrif mabwysiadu gyda'ch ffurflen gais. Os yw'ch enw yn wahanol ar eich tystysgrif geni neu'ch tystysgrif mabwysiadu, rhaid i chi ddarparu prawf o'r ffaith bod eich enw wedi newid. Gall hyn fod ar ffurf gweithred newid enw neu dystysgrif briodas.

**C3** t Rhaid i chi ddarparu prawf o gyfeiriad eich cartref. Gall hwn fod yn Hysbysiad Dyfarniad Credyd Treth TC602(E) neu'n fil cyfleustodau (nwy, trydan, treth gyngor neu ffôn), wedi'i ddyddio yn ystod y tri mis diwethaf. Os byddwch yn newid eich cyfeiriad yn ystod y flwyddyn academaidd, rhaid eich bod yn byw yn y DU yn barhaol o hyd ac yn mynychu ysgol neu goleg yng Nghymru o hyd er mwyn parhau i gael LCA.

Am ragor o wybodaeth am yr Hysbysiad Dyfarniad Credyd Treth TC602(E), a fyddech gystal â throi at Adran I y nodiadau hyn.

## ADRAN C MANYLION YNGHYLCH EICH CENEDLIGRWYDD

Er mwyn bod yn gymwys i gael LCA, rhaid i chi fodloni'r meini prawf a bennwyd ar gyfer cynllun LCA Cymru ynghylch manylion preswylio a chenedligrwydd. Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch manylion preswylio a chenedligrwydd, dylech gysylltu â Thîm Gwasanaethau Cwsmeriaid LCA Cymru.

**Mae'r canlynol yn aelod-wledydd o'r UE:** Awstria, Gwlad Belg, Bwlgaria, Cyprus, Gweriniaeth Tsiec, Denmarc, Estonia, Y Ffindir, Ffrainc, Yr Almaen, Gwlad Groeg, Hwngari, Iwerddon, Yr Eidal, Latfia, Lithwania, Lwcsembwrg, Malta, Yr Iseldiroedd, Gwlad Pwyl, Portiwgal, Romania, Slofacia, Slofenia, Sbaen, Sweden a'r Deyrnas Unedig.

**Mae'r canlynol yn aelod-wledydd o'r AEE:** yr holl rai uchod, Gwlad yr Iâ, Liechtenstein a Norwy.

**C1** Rhaid i chi anfon eich pasport neu'ch tystysgrif geni fel tystiolaeth o'ch cenedligrwydd.
t Os cawsoch eich geni y tu allan i'r DU ac os oes gennych dystysgrif geni Brydeinig a gyhoeddwyd gan Swyddfa Gonswl Brydeinig, dylech anfon hon neu lythyr neu ddogfen arall yn lle'ch pasport.

**C2** Os byddwch yn ticio **a - f** bydd yn rhaid i chi anfon:

- **eich pasport neu'ch cerdyn adnabod cenedlaethol** a, chan ddibynnu ar eich categori o ran cenedligrwydd, copïau **gwreiddiol** o'r canlynol:

| Categori Cenedligrwydd | Tystiolaeth Angenrheidiol t |
|---|---|
| **b** Gwladolyn yr AEE neu'r Swistir sy'n gweithio yn y DU, sydd wedi gweithio yn y DU neu sy'n chwilio am waith yn y DU. | • Os ydych yn gweithio yn y DU – P60 neu lythyr gan eich cyflogwr ar bapur pennawd.<br>• Os ydych yn hunangyflogedig yn y DU – cyfrifon archwiliedig, ffurflenni treth neu fanylion am eich incwm.<br>• Os ydych yn chwilio am waith yn y DU – P60, P45 flaenorol, llythyr gan eich cyflogwr blaenorol ar bapur pennawd, cyfrifon archwiliedig, ffurflenni treth neu fanylion am eich incwm a thystiolaeth sy'n dangos eich bod yn chwilio am gyflogaeth yn y DU ar hyn o bryd.<br>• Os ydych wedi gweithio yn y DU yn flaenorol – P45, P60 neu lythyr gan eich cyflogwr blaenorol ar bapur pennawd. |
| **c** Gŵr, gwraig, partner sifil, plentyn, llysblentyn neu blentyn partner sifil gwladolyn yr AEE sy'n gweithio yn y DU, sydd wedi gweithio yn y DU neu sy'n chwilio am waith yn y DU.<br>**d** Gŵr, gwraig, partner sifil gwladolyn y Swistir sy'n gweithio yn y DU, sydd wedi gweithio yn y DU neu sy'n chwilio am waith yn y DU. | Pasport neu gerdyn adnabod cenedlaethol eich perthynas; prawf o'ch perthynas gyda'r unigolyn hwnnw ac:<br>• Os ydynt yn gweithio yn y DU – eu P60 neu lythyr gan eu cyflogwr ar bapur pennawd.<br>• Os ydynt yn hunangyflogedig yn y DU – eu cyfrifon archwiliedig, eu ffurflenni treth neu fanylion am eu hincwm.<br>• Os ydynt yn chwilio am waith yn y DU – eu P60, P45 flaenorol, llythyr gan eu cyflogwr blaenorol ar bapur pennawd, eu cyfrifon archwiliedig, ffurflenni treth neu fanylion am eu hincwm.<br>• Os ydynt wedi gweithio yn y DU yn flaenorol – eu P45, eu P60 neu lythyr gan eu cyflogwr blaenorol ar bapur pennawd. |
| **e** Plentyn, llysblentyn neu blentyn partner sifil gwladolyn y Swistir. | Pasport neu gerdyn adnabod cenedlaethol eich rhiant, eich llys-riant neu bartner sifil eich rhiant; a phrawf o'ch perthynas gyda nhw. |
| **f** Mae'ch rhiant yn wladolyn o Dwrci sy'n byw yn y DU ar hyn o bryd ac sy'n gweithio yn y DU neu sydd wedi gweithio yn y DU. | Pasport neu gerdyn adnabod cenedlaethol eich rhiant; prawf o'ch perthynas gyda'r unigolyn hwnnw ac:<br>• Os ydynt yn gweithio yn y DU – eu P60 neu lythyr gan eu cyflogwr ar bapur pennawd.<br>• Os ydynt yn hunangyflogedig yn y DU – eu cyfrifon archwiliedig, eu ffurflenni treth neu fanylion am eu hincwm.<br>• Os ydynt wedi gweithio yn y DU yn flaenorol – eu P45, eu P60 neu lythyr gan eu cyflogwr blaenorol ar bapur pennawd. |

Os byddwch yn ticio **g - k**, gan ddibynnu ar eich categori o ran cenedligrwydd, bydd yn rhaid i chi anfon copïau **gwreiddiol** o'r canlynol:

| Gwybodaeth a Chategori Cenedligrwydd | Tystiolaeth Angenrheidiol t |
|---|---|
| **g** Statws Preswylydd Sefydlog, Caniatâd Mynediad neu Aros am Amser Amhenodol yn y DU – Mae hyn yn golygu y gallwch fyw yn y DU yn barhaol heb i'r Swyddfa Gartref osod unrhyw gyfyngiadau ar hyd eich cyfnod yma. | Eich pasport sy'n cadarnhau'ch statws mewnfudo **neu** lythyr gan y Swyddfa Gartref sy'n cadarnhau'ch statws mewnfudo. |
| **h** Ffoadur – Rhaid eich bod wedi bod yn byw yn y DU ers y dyfarnwyd Statws Ffoadur i chi. | Eich dogfen statws mewnfudo **a'ch** llythyr wrth y Swyddfa Gartref. |
| **i** Gŵr, gwraig, partner sifil, plentyn, llysblentyn neu blentyn partner sifil unigolyn y dyfarnwyd 'Statws Ffoadur' iddynt gan lywodraeth y DU – Rhaid eich bod wedi bod yn byw yn y DU ers y dyfarnwyd Statws Ffoadur i chi. | Dogfen statws mewnfudo eich perthynas, llythyr wrth y Swyddfa Gartref **a** phrawf o'ch perthynas gyda'r unigolyn hwnnw ar yr adeg y gwnaethant eu cais i'r Swyddfa Gartref. |
| **j** Dyfarnwyd 'Caniatâd Mynediad neu Aros' yn y DU. | Eich dogfen statws mewnfudo a'ch llythyr wrth y Swyddfa Gartref. |
| **k** Gŵr, gwraig, partner sifil, plentyn, llysblentyn, plentyn partner sifil unigolyn y dyfarnwyd 'Caniatâd Mynediad neu Aros' yn y DU iddynt – mae 'Caniatâd Mynediad neu Aros' yn cynnwys:<br>Amddiffyniad Dyngarol,<br>Caniatâd Dewisol a<br>Chaniatâd Mynediad neu Aros Eithriadol. | Dogfen statws mewnfudo eich perthynas, llythyr wrth y Swyddfa Gartref **a** phrawf o'ch perthynas gyda'r unigolyn hwnnw ar yr adeg y gwnaethant eu cais i'r Swyddfa Gartref. |

**l** Cysylltwch â Thîm Gwasanaethau Cwsmeriaid LCA Cymru i holi a ydych yn bodloni'r meini prawf ynghylch manylion preswylio a chenedligrwydd a bennwyd ar gyfer cynllun LCA Cymru.

## ADRAN D EICH MANYLION PRESWYLIO

Mae **preswylio fel arfer** yn golygu eich bod yn byw yn y DU, yr UE/AEE neu'r Swistir fel arfer, trwy ddewis ac yn gyfreithlon. Ni ddylech sôn am unrhyw absenoldeb o'r ardal hon dros dro gan na fydd hyn yn eich atal rhag cael eich ystyried fel rhywun sy'n preswylio fel arfer. Sylwer bod yn rhaid i chi fod yn byw yn y DU ar ddiwrnod cyntaf eich cwrs hefyd er mwyn bod yn gymwys i gael LCA.

## ADRAN E MANYLION YNGHYLCH EICH ANNIBYNIAETH

**C1** Mae wedi ymbellhau o'ch rhiant(rhieni)/gwarcheidwad(gwarcheidwaid) yn golygu nad ydych yn cael unrhyw gyswllt gyda'ch rhiant(rhieni)/gwarcheidwad(gwarcheidwaid) yn barhaol.
Os byddwch yn ateb 'Ydw' ar gyfer C1 a 'Nac ydw' ar gyfer C3, rhaid i chi nodi'ch manylion ariannol chi a'ch partner (pan fo hynny'n berthnasol) yn Adran I.

| Meini prawf ar gyfer Annibyniaeth | Tystiolaeth Angenrheidiol t |
|---|---|
| **C2** Rydych yn byw yng ngofal Awdurdod Lleol (er enghraifft, gyda rhieni maeth) | Llythyr ar bapur pennawd gan eich Awdurdod Lleol y mae'n rhaid iddo:<br>- gadarnhau eich bod yn byw dan ei drefniadau gofal neu gyda rhieni maeth;<br>- cadarnhau eich cyfeiriad presennol; a'i<br>- lofnodi gan swyddog awdurdodedig o'ch Awdurdod Lleol a chynnwys stamp swyddogol. |
| **C3** Rydych yn cael Cymhorthdal Incwm neu Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar incwm | Eich datganiad Budd-daliadau diweddaraf, Hysbysiad Dyfarniad Credyd Treth TC602(E) ar gyfer 6 Ebrill 2008 tan 5 Ebrill 2009 neu ddatganiad banc diweddar sy'n dangos taliadau Budd-daliadau. |
| **C4** Rydych yn gyfrifol am blentyn, sef eich plentyn chi | Eich datganiad Budd-dal Plant diweddaraf neu dystysgrif geni eich plentyn a chadarnhad o'ch cyfeiriad presennol. |
| **C5** Rydych yng ngofal Sefydliad i Droseddwyr Ifanc ar hyn o bryd | Llythyr ar bapur pennawd gan eich gweithiwr allweddol y mae'n rhaid iddo:<br>- gadarnhau enw'r man lle y byddwch yn cael eich cadw a hyd y cyfnod y byddwch yn cael eich cadw yno;<br>- cadarnhau eich manylion preswylio/cenedligrwydd;<br>- cadarnhau eich bod yn rhoi caniatâd i'ch gweithiwr allweddol weithredu ar eich rhan at ddibenion LCA;<br>- cael ei lofnodi gennych chi a'ch gweithiwr allweddol. |

## ADRAN G CANIATÂD I RANNU

Os ydych yn cytuno rhoi'r hawl i ni siarad gyda'ch rhiant(rhieni)/gwarcheidwad(gwarcheidwaid) neu'ch partner, rhaid iddynt ddyfynnu'r Cyfeirnod Cwsmer unigryw sy'n ymddangos ar yr holl ohebiaeth y byddwn yn ei hanfon atoch ynghylch eich cais. Yn ogystal, byddwn yn gofyn cwestiynau pellach iddynt am y manylion y byddwch yn eu nodi ar eich ffurflen gais fel mesur diogelwch ychwanegol.

---

## ADRAN I MANYLION ARIANNOL EICH CARTREF

**Ni** ddylech lenwi'r adran hon os ydych wedi datgan yn Adran E bod unrhyw rai o'r canlynol yn berthnasol i chi:

- **Rydych yn byw yng ngofal yr Awdurdod Lleol**
- **Rydych yn cael Cymhorthdal Incwm neu Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar incwm, yn eich enw chi**
- **Mae gennych blentyn yr ydych yn gyfrifol amdanynt**
- **Rydych yn Droseddwr Ifanc mewn Dalfa**

Am ragor o wybodaeth, trowch at Adran E y canllawiau hyn.

**NI ddylech** gynnwys incwm rhieni neu lys-rieni nad ydynt yn byw yn eich cartref yn barhaol.

**Bydd unrhyw ymgais i sicrhau LCA mewn ffordd anonest yn cael ei thrin fel twyll ac fe allai arwain at ddwyn achos troseddol a/neu sifil yn eich erbyn.**


**C1** Os ydych yn llenwi'r adran hon gan nodi'ch manylion chi, nodwch 'Myfyriwr' ar gyfer y Berthynas gyda'r ymgeisydd ar gyfer Unigolyn 1.

**C2** t Os ydych yn cael Cymhorthdal Incwm neu Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar incwm, ac os mai £0.00 yw cyfanswm incwm eich cartref, rhaid i chi ddarparu copi o'ch Datganiad Budd-daliadau diweddaraf.

**C3** t Os yw'ch cartref yn cael Credydau Treth, byddwch yn cael llythyr gan Gyllid a Thollau EM yn nodi manylion incwm eich cartref a'ch hawl i gael Credyd Treth. Gelwir hwn yn Hysbysiad Dyfarniad Credyd Treth. Am wybodaeth bellach, trowch at yr enghraifft ar y dudalen nesaf.

# HYSBYSIAD DYFARNIAD CREDYD TRETH ENGHRAIFFT





HM Revenue & Customs

105124:00000546:001

MR FRANK PEACH
MRS PAULINE PEACH
1 ANY STREET
ANYTOWN
ANYWHERE
XX00 0XX

**Helplines 08:00 to 20:00**
**0845 300 3900**
Minicom/Textphone
**0845 300 3909**

TAX CREDIT OFFICE
PRESTON
PR1 0SD

Date **18 July 2009**

**Final tax credits decision for 06/04/2008 to 05/04/2009**

MR FRANK PEACH — National Insurance number AB 34 56 78 D
MRS PAULINE PEACH — National Insurance number CD 55 56 66 B

**Summary**

| | |
|---|---|
| **Tax credit for the period – see Part 2** | |
| Child Tax Credit | £2778.66 |
| **Amounts still to be paid to you** | |
| Child Tax Credit | £0.00 |

**Part 1** shows the circumstances and income we have used to make our final decision. We expect you to check that they are correct and tell us if they are not.

**Part 2** shows how we have used the information to calculate the amount of tax credits for the year.

**Part 3** gives details of payments during the year.

Example

**Why we are writing to you**

We are making a final decision on the amount of tax credit due to you for the period 06/04/2007 to 05/04/2008 based on information we held.

**What to do now**

Please check the details on this form and tell us if anything is wrong, missing or incomplete.

If we do not hear from you we will assume the information we hold is correct and
If we later find that you knew this information was incorrect or incomplete and did
you may be liable to a financial penalty and/or you may be prosecuted.

TC602(E) 3/2008 Page 1 of 4

Dylai'ch enw ymddangos yma.

Dyma'r dyddiad y dyfarnwyd eich credydau treth ar ei gyfer. Byddwn yn gofyn i chi gyflwyno credyd treth y flwyddyn flaenorol h.y. ar gyfer blwyddyn academaidd 2009/10, bydd angen i chi gyflwyno Hysbysiad Dyfarniad Credyd Treth TC602(E) ar gyfer 6 Ebrill 2008 tan 5 Ebrill 2009.

Dyma'ch crynodeb credyd treth, **NID** incwm blynyddol eich cartref. Nodir incwm blynyddol eich cartref ar dudalen 2 eich Hysbysiad Dyfarniad Credyd Treth TC602(E).

Dyma'r man lle y nodir y fersiwn o'r Hysbysiad Dyfarniad Credyd Treth a ddyfarnwyd i chi **– dim ond yr E-fersiwn y byddwn yn ei dderbyn.**



**Part 1 Personal circumstances**

Your tax credits were based on your personal circumstances during the period shown on page 1. We hold the following details for the end of that period. Please check they were correct. If anything is wrong, missing or incomplete, please contact us.

**Claimants**

Your tax credits are based on you being part of a couple. If you have separated, please tell us. You may be able to make a new claim to tax credits, either on your own or as part of a new couple.

**MR FRANK PEACH**

You worked 33 hours a week.

**MRS PAULINE PEACH**

You claimed tax credits jointly with the person named above.

You worked 10 hours a week.

**Qualifying children and young people**

2 aged between one and sixteen

**Child care costs**

You have no qualifying child care costs. If you start to pay for child care, and you qualify for Working Tax Credit you may be able to claim the child care element of Working Tax Credit. Contact us for details.

**Income**

We have made a final decision on your award based on the following information about your income. Please check carefully and tell us if any of the figures are incorrect.

**Your income for the year 6 April 2008 to 5 April 2009**

| | | |
|---|---|---|
| **MR FRANK PEACH** | | |
| Earnings as an employee | £16000.00 | |
| Your total income | | £16000.00 |
| **MRS PAULINE PEACH** | | |
| Earnings as an employee | £3000.00 | |
| Your total income | | £3000.00 |
| Total income for the year from 6 April 2008 to 5 April 2009 | | £19000.00 |

**Your income for the year 6 April 2007 to 5 April 2008**

| | |
|---|---|
| Total income for the year from 6 April 2007 to 5 April 2008 | £18000.00 |

Example

**Your right to appeal**

You have 30 days from the date of this notice to appeal. Any appeal must be in writing, but you may want to phone us first to see if we can reach an agreement without a formal appeal. You will still have the right to appeal if you do this.

Page 2 of 4 000000001114395

Nodir incwm blynyddol eich cartref ar dudalen 2; a fyddech gystal â gosod hon wrth eich ffurflen gais, ynghyd â thudalen 1.

## ADRAN I PARHAD

**C4** Bydd angen i chi ddarparu'r holl fanylion ynghylch incwm eich cartref, wedi'u seilio ar flwyddyn ariannol 2008-09, sy'n angenrheidiol er mwyn cwblhau asesiad incwm. Rhaid nodi'r holl incwm yn unol â'i werth blynyddol, cyn treth.

Rhaid i chi ddarparu tystiolaeth ategol ar gyfer holl incwm y cartref a gofnodir yn yr adran hon hefyd. Pan ofynnir am P60 neu SA302, rhaid darparu'r ffurflen a ddosbarthwyd ar ddiwedd y flwyddyn ariannol ddiweddaraf.

### MATHAU SAFONOL O INCWM

| Math o Incwm | Disgrifiad | Tystiolaeth Angenrheidiol t |
|---|---|---|
| **Cyflogau** | Hwn yw cyfanswm y tâl trethadwy. Hwn yw'r swm a delir cyn y gwneir unrhyw ddidyniadau ar gyfer Treth Incwm neu gyfraniadau Yswiriant Gwladol. Mae'n cynnwys:<br>- Yr holl incwm o gyflogaeth.<br>- Tâl Salwch Statudol.<br>- Tâl sy'n Gysylltiedig â Pherfformiad.<br>- Budd-daliadau/Taliadau mewn nwyddau.<br>- Tâl Mamolaeth Statudol.<br>- Tâl Tadolaeth Statudol.<br>- Tâl Mabwysiadu Statudol.<br>- Cildyrnau neu arian rhodd.<br>- Taliadau goramser.<br>**NI DDYLECH GYNNWYS** unrhyw Gredyd Treth neu elfen Credyd Treth Gwaith o'r Fargen Newydd yr ydych yn ei gael ar wahân neu fel rhan o'ch cyflog. Nid yw'r credydau hyn yn cyfrif at ddibenion LCA. | P60, slip cyflog mis 12 neu slipiau cyflog wythnos 50, 51 a 52.<br>Ffurflenni P45 os ydych wedi cael mwy nag un cyflogwr yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf.<br>P11D neu P9D, os ydych yn cael budd-daliadau neu daliadau mewn nwyddau. |
| **Incwm Hunangyflogaeth** | Hwn yw'r incwm a'r elw o weithgarwch hunangyflogedig, naill ai ar eich pen eich hun neu mewn partneriaeth, fel y mae'n ymddangos ar eich ffurflen SA302.<br>Mae'n cynnwys:<br>- Incwm rhentu busnes.<br>- Unrhyw incwm arall sy'n codi o fod yn berchen ar eiddo.<br>**Nid** yw'n cynnwys:<br>- Cyfraniadau gros a wneir i gynllun pensiwn personol.<br>- Unrhyw golledion masnachol a ddygwyd ymlaen o flynyddoedd blaenorol. | SA302 ddiweddaraf. Yn absenoldeb SA302 neu Hysbysiad Dyfarniad Credyd Treth, bydd llythyr gan gyfrifydd ar bapur pennawd yn dderbyniol. |
| **Budd-daliadau Nawdd Cymdeithasol Trethadwy** | Taliadau a wneir i unigolion dan y system Nawdd Cymdeithasol sy'n cael ei rhedeg gan y Ganolfan Byd Gwaith neu'r Swyddfa Bensiynau.<br>Yn benodol:<br>- Pensiwn Ymddeol.<br>- Lwfans Rhiant Gweddw.<br>- Lwfans Gofalwr.<br>- Budd-dal Marwolaeth Ddiwydiannol.<br>- Budd-dal Analluogrwydd (ar ôl 28 wythnos)*.<br>- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth wedi'i Seilio ar Gyfraniadau.<br>- Budd-dal Profedigaeth.<br>- Lwfans Ceisio Gwaith.<br>NI DDYLECH GYNNWYS Cymhorthdal Incwm neu Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar incwm. Os ydych yn cael unrhyw un o'r rhain, dylech ateb C2. | Datganiad neu gofnod o fudd-daliadau trethadwy a dalwyd.<br>Gallwch gael hwn gan eich Swyddfa Canolfan Byd Gwaith neu Nawdd Cymdeithasol leol. |

*Dylech ddidynnu'r 28 wythnos gyntaf o daliadau o'r dyddiad cyntaf i chi gael Budd-dal Analluogrwydd.

## ADRAN I PARHAD

Dosbarthir y mathau o incwm yn y tabl canlynol fel 'Incwm Arall'. Os ydych wedi cael y mathau hyn o incwm, bydd angen i chi roi'r cyfanswm ar gyfer pob person, yna bydd angen i chi adio'r ddau gyfanswm.

- Os yw'r cyfanswm dros £300, rhaid i chi nodi manylion eich incwm arall yn y bocsys a ddarparwyd.
- Os nad yw'r cyfanswm dros £300, ni fydd angen i chi ddweud wrthym am unrhyw rai o'r symiau incwm eraill.

**MATHAU ERAILL O INCWM**

| **Math o Incwm** | **Disgrifiad** | **Tystiolaeth Angenrheidiol** |
|---|---|---|
| **Cynilion a Buddsoddiadau** | Mae hwn yn incwm nad ydych yn gweithio er mwyn ei ennill. Mae hyn yn cynnwys:<br>- Llog ar gynilion a buddsoddiadau o gyfrifon banc a chymdeithas adeiladu cyn y caiff treth ei ddidynnu. Mae hyn yn cynnwys unrhyw ddifidendau a gafwyd.<br>**Nid** yw hyn yn cynnwys cyfrifon di-dreth, megis TESSA's, PEP's neu ISA's. | Datganiadau banc neu gymdeithas adeiladu. Datganiadau llog blynyddol. Talebau difidend. |
| **Incwm Ymddiriedolaeth** | Mae hwn yn incwm, cyn y caiff treth ei ddidynnu, a ddaw o:<br>- Ymddiriedolaethau.<br>- Setliadau.<br>- Trosglwyddo Asedau.<br>- Gwerth y llog sydd gennych chi neu'ch partner mewn ystad unigolyn a fu farw. Gallai hwn fod yn asedau ar ffurf arian, ymddiriedolaeth neu eiddo. | Datganiadau blynyddol neu Dystysgrif Ymddiriedolaeth gan weinyddwr yr ymddiriedolaeth. |
| **Incwm Tramor** | Mae hwn yn incwm a gafwyd dros y flwyddyn ddiwethaf o ganlyniad i unrhyw waith a wnaethpwyd mewn gwlad dramor neu unrhyw fuddsoddiadau sydd gennych mewn gwlad dramor, cyn treth. Rhaid nodi'r holl symiau mewn punnoedd sterling.<br>Mae'r incwm hwn yn cynnwys:<br>- Difidendau o gyfranddaliadau sy'n cael eu cadw mewn gwlad dramor.<br>- Pensiynau a budd-daliadau Nawdd Cymdeithasol sy'n dod o wlad dramor.<br>- Incwm o dir neu eiddo mewn gwlad dramor (megis rhent).<br>- Unrhyw incwm arall o ymddiriedolaethau, cwmnïau ac endidau eraill (megis enillion o bolisïau yswiriant bywyd, blwydd-daliadau neu bolisïau ad-dalu cyfalaf) mewn gwlad dramor. | Tystiolaeth gan Swyddfa Dreth mewn gwlad dramor, Nawdd Cymdeithasol Tramor, tystysgrif Bensiwn Dramor, neu dystysgrifau incwm neu ddatganiadau incwm eraill. |

**Yn parhau ar y dudalen nesaf**

## ADRAN I PARHAD

| MATHAU ERAILL O INCWM | | |
|---|---|---|
| **Math o Incwm** | **Disgrifiad** | **Tystiolaeth Angenrheidiol** t |
| **Incwm Eiddo (Gelwir hwn yn Incwm Rhentu hefyd)** | Mae hwn yn incwm yr ydych yn ei gael o dir neu eiddo yr ydych yn berchen arno a/neu yr ydych yn ei brydlesu i barti arall. Nid yw hyn yn cynnwys incwm dan gynllun Rhentu Ystafell (os ydych yn gosod llety yn eich cartref eich hun am £4,250 neu lai y flwyddyn). | Llyfr rhent neu ddatganiadau banc. |
| **Incwm Pensiwn** | Mae hwn yn incwm yr ydych wedi'i gael os ydych mewn oedran cael pensiwn.<br>Mae'n cynnwys:<br>- Pensiwn Ymddeol y Wladwriaeth.<br>- Incwm Pensiwn Statudol.<br>- Cynlluniau pensiwn personol.<br>- Blwydd-daliadau ymddeol. | Datganiadau Pensiwn Blynyddol, Llyfr Pensiwn, P60 Pensiwn neu dystysgrif o'r pensiwn a dalwyd. |
| **Incwm Tybiannol** | Mae hwn yn incwm sy'n cael ei drin fel incwm a gafwyd, hyd yn oed os nad ydych wedi'i gael yn ymarferol.<br>Mae hyn yn cynnwys:<br>- Cyfalaf sy'n cael ei drin fel Incwm – gan gynnwys difidendau a delir fel cyfranddaliadau, yn ogystal ag arian parod (difidendau stoc), a phremiymau ar gyfer dyfarnu prydles ar eiddo yr ydych yn berchen arno.<br>- Incwm Ymddiriedolaeth sy'n cael ei drin fel incwm unigolyn arall, megis llog dros £100 ar gyfalaf mewn cyfrif cymdeithas adeiladu plentyn.<br>- Incwm y gwnaethoch ei ildio neu ei drosglwyddo i unigolyn arall gan gynnwys gwerthu pensiwn galwedigaethol neu drosglwyddo cyfrif banc dan enw rhywun arall. | Byddwn yn derbyn eich llofnod yn Adran J ffurflen gais LCA Cymru. |

## DEDDF DIOGELU DATA

Defnyddir y wybodaeth a nodir ar y ffurflen hon er mwyn prosesu'r cais am LCA ac er mwyn gwneud unrhyw waith gweinyddol dilynol. Er mwyn gallu prosesu a gweinyddu'r cais, rhennir eich gwybodaeth gyda'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr (SLC), sy'n gweinyddu Cynllun LCA Cymru. Mae gan SLC ddyletswydd i ddiogelu arian cyhoeddus ac fe allai ddefnyddio'r wybodaeth hon i ddarganfod/atal twyll hefyd. Gall SLC rannu'r wybodaeth gyda chyrff cyhoeddus eraill hefyd at y diben hwn. Yn ogystal, gall SLC gadw'ch gwybodaeth er mwyn ei gynorthwyo i brosesu unrhyw gais y byddwch yn ei wneud yn y dyfodol efallai, am arian addysg bellach a/neu addysg uwch.


SFW/EMA/N/V09-10